



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

Meini prawf ar gyfer yswiriant Arolygydd Cymeradwy (WGC 006/2021)

Gwybodaeth am y gofynion ar gyfer y meini prawf newydd i gymeradwyo yswiriant ar gyfer Arolygwyr Cymeradwy yn unol ag adran 47(6) Deddf Adeiladu 1984.

Cyhoeddwyd gyntaf: 1 Gorffennaf 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 1 Gorffennaf 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/meini-prawf-ar-gyfer-yswiriant-arolygydd-cymeradwy-wgc-0062021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Cylchlythyr reoliadau adeiladu

Cyflwyniad

Cwmpas

Newidiadau i'r Meini Prawf ar gyfer Cynlluniau Yswiriant i arolygwyr cymeradwy

Yswiriant hyblyg ar gyfer Arolygwyr Cymeradwy

Canllawiau ar gyfer cynlluniau yswiriant

Ymholiadau

Atodiad A

Atodiad B

Atodiad 1

Gwybodaeth am y gofynion ar gyfer y meini prawf newydd i gymeradwyo yswiriant ar gyfer Arolygwyr Cymeradwy yn unol ag adran 47(6) Deddf Adeiladu 1984.

Cylchlythyr reoliadau adeiladu

Rhif y Cylchlythyr: WGC 006/2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/meini-prawf-ar-gyfer-yswiriant-arolygydd-cymeradwy-wgc-0062021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Dyddiad cyhoeddi: 01/07/2021

Statws: Er gwybodaeth

Teitl: Meini prawf newydd ar gyfer cymeradwyo yswiriant ar gyfer Arolygwyr Cymeradwy

Cyhoeddwyd gan: Francois Samuel: Pennaeth Rheoliadau Adeiladu

Cyfeiriwyd at:

Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (Anfonwch ymlaen at: Swyddogion Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Anfonwch ymlaen at: Aelodau'r Senedd

Cymdeithas Arolygwyr Cymeradwy Corfforaethol

CICAIR Limited

Crynodeb

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r meini prawf newydd ar gyfer cymeradwyo cynlluniau yswiriant ar gyfer Arolygwyr Cymeradwy yn unol ag adran 47(6) Deddf Adeiladu 1984.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Colin Blick
Rheoliadau Adeiladu
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8144

E-bost: enquiries.brconstruction@llyw.cymru

Gwefan: <https://llyw.cymru/adeiladu-a-chynllunio>

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/meini-prawf-ar-gyfer-yswiriant-arolygydd-cymeradwy-wgc-0062021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cyflwyniad

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu am y newidiadau rydym yn eu gwneud i drefniadau goruchwyllo'r Arolygydd Cymeradwy, y Meini Prawf ar gyfer Cymeradwyo Cynlluniau Yswiriant ar gyfer Arolygwyr Cymeradwy yn unol ag Adran 47(6) o Ddeddf Adeiladu 1984, a Chanllawiau newydd ar gyfer y Cynlluniau Yswiriant.

Cwmpas

Mae'r cylchlythyr hwn yn berthnasol i Arolygwyr Cymeradwy sy'n cyflawni swyddogaethau rheoli adeiladu yng Nghymru.

Newidiadau i'r Meini Prawf ar gyfer Cynlluniau Yswiriant i arolygwyr cymeradwy

Ar ôl trafod gydag Arolygwyr Cymeradwy a'r sector yswiriant, rydym yn cyhoeddi meini prawf newydd ar gyfer cymeradwyo cynlluniau yswiriant i arolygwyr cymeradwy a fydd yn diogelu defnyddwyr hanesyddol, yn cyd-fynd yn well â'r gofynion ar broffesiynau eraill ac yn darparu ar gyfer mwy o hyblygrwydd masnachol.

Mae'r meini prawf newydd yn caniatáu:

- uchafswm tâl-dros-ben wedi'i fandio, sy'n gymesur â throsiant pob cwmni
- chwe mlynedd o yswiriant awtomatig wedi i'r cwmni ddod i ben, gan alinio'r gofynion ar gyfer Arolygwyr Cymeradwy â phroffesiynau eraill a reoleiddir
- cyfyngiadau penodol ar yswiriant, wedi'u hategu gan strwythur 2 haen o oruchwyliaeth gan arolygydd cymeradwy

Bydd lefel yr amddiffyniad a gynnigir o dan gynlluniau cymeradwy presennol yn cael ei gadw ar gyfer prosiectau rheoli adeiladu sydd eisoes â Hysbysiad

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/meini-prawf-ar-gyfer-yswiriant-arolygydd-cymeradwy-wgc-0062021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cychwynnol dilys.

Mae'r meini prawf newydd ar gyfer cymeradwyo cynlluniau yswiriant ar gyfer Arolygwyr Cymeradwy yn Atodiad A.

Yswiriant hyblyg ar gyfer Arolygwyr Cymeradwy

Er mwyn sicrhau mwy o dryloywder o ran cynlluniau yswiriant a gymeradwywyd gan yr Arolygydd Cymeradwy, rydym yn cyflwyno strwythur dwy haen ar gyfer Arolygwyr Cymeradwy. Bydd hyn yn caniatáu i yswirwyr ac Arolygwyr Cymeradwy deilwra eu cynlluniau i gyd-fynd â phroffil risg Arolygwyr Cymeradwy sy'n gweithio mewn gwahanol haenau. Bydd hefyd yn cynorthwyo'r awdurdodau lleol i lunio'r dyfarniad cywir wrth dderbyn hysbysiadau gan Arolygwyr Cymeradwy.

Canllawiau ar gyfer cynlluniau yswiriant

Cyn cael ei ystyried yn gynllun yswiriant cymeradwy, rhaid cymeradwyo cynlluniau fel rhai sy'n darparu yswiriant digonol gan Weinidogion Cymru.

Rhaid i gynlluniau presennol sy'n dymuno gwneud unrhyw newidiadau i unrhyw un o'u telerau, gan gynnwys adlewyrchu'r meini prawf diwygiedig, gael eu hail-gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Dylid darparu telerau newydd neu ddiwygiedig yn llawn i:

enquiries.brconstruction@llyw.cymru

Rydym yn parhau i groesawu trafodaethau gyda broceriaid, yswirwyr, neu bartion eraill sy'n gallu cynnig cynlluniau a fyddai'n bodloni'r Meini Prawf ar gyfer Cynlluniau Yswiriant.

Mae canllawiau ar gyfer Cynlluniau Yswiriant ar gael yn Atodiad B.

Rydym yn gofyn i CICAIR gryfhau eu proses archwilio i gefnogi'r gofynion

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/meini-prawf-ar-gyfer-yswiriant-arolygydd-cymeradwy-wgc-0062021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

yswiriant yn y ddeddfwriaeth a'r Cod Ymddygiad.

Ymholiadau

Ar gyfer ymholiadau dros y ffôn sy'n ymwneud â'r cylchlythyr hwn, cysylltwch â:

Colin Blick ar 03000 628144.

E-bost: enquiries.brconstruction@llyw.cymru

Atodiad A

Meini prawf newydd ar gyfer cymeradwyo cynlluniau yswiriant ar gyfer arolygwyr cymeradwy yn unol ag adran 47(6) o Ddeddf Adeiladu 1984 - 2021

a. Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac indemniad proffesiynol

Rhaid i gynlluniau yswiriant ar gyfer arolygwyr cymeradwy ddarparu ar gyfer atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant indemniad proffesiynol sy'n cwmpasu'r arolygydd am golledion sy'n deillio o hawliadau mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau fel arolygydd cymeradwy (AC)

Mae'r lefelau gofynnol canlynol o yswiriant yn berthnasol:

- (i) ar gyfer hawliadau yn erbyn yr arolygydd cymeradwy mewn perthynas ag anaf personol (gan gynnwys salwch, clefyd a marwolaeth) isafswm terfyn o ddim llai na £5 miliwn fesul hawliad (bydd pob hawliad y gellir ei briodoli i un digwyddiad yn cael ei drin fel un hawliad)
- (ii) ar gyfer hawliadau eraill yn erbyn yr arolygydd cymeradwy, isafswm terfyn o ddim llai na £1 miliwn fesul hawliad (bydd pob hawliad y gellir ei briodoli i un

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/meini-prawf-ar-gyfer-yswiriant-arolygydd-cymeradwy-wgc-0062021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

digwyddiad yn cael ei drin fel un hawliad)

(iii) os yw'r isafswm yn is-baragraffau (i) a (ii) yn ddarostyngedig i isafswm yswiriant cyffredinol o £15 miliwn ar gyfer pob hawliad yn erbyn yr arolygydd cymeradwy mewn perthynas â gwaith a wnaed gan yr arolygydd mewn unrhyw gyfnod o 12 mis.

Cyfyngiadau – Adeiladau Tal, Systemau cladin allanol

Pan fo arolygydd Cymeradwy yn gweithredu mewn "Haen 2" o waith AC yn unig (ac yn hysbysu CICAIR, cwsmeriaid ac Awdurdodau Lleol o'r ffaith hon), gellir cymhwysu cyfyngiadau i yswiriant (y cytunwyd arnynt gan Weinidogion Cymru) i eithrio mathau penodol o adeiladau y gall Arolygwyr Cymeradwy weithio arnynt yn Haen 1.

Rhaid i waith hanesyddol a wneir ar fathau o adeiladau a eithrir gadw lefelau o amddiffyniadau a ddarparwyd gan bolisiâu yswiriant blaenorol.

b. Costau amddiffyn

Mae'r yswiriant i'w ymestyn i gostau amddiffyn yr arolygydd cymeradwy, sydd i'w trin ar sail "costau ychwanegol", h.y. ni fydd costau o'r fath yn cael eu hystyried ar gyfer yr isafswm fesul hawliad, er y byddant yn cyfrif tuag at yr isafswm cyffredinol o £15miliwn.

c. Gorchudd dŵr ffo awtomatig

Mewn perthynas â:

- (i) unrhyw hawliadau am anafiadau personol fel y'u nodir yn is-baragraff a.(i); a
- (ii) hawliadau nad ydynt yn ymwneud ag anafiadau fel y'u nodir yn is-baragraff a.(ii) ac eithrio pan fo o dan gyfraith contract

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/meini-prawf-ar-gyfer-yswiriant-arolygydd-cymeradwy-wgc-0062021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

rhaid darparu yswiriant mewn perthynas â hawliadau a hysbysir i'r yswiriwr o fewn:

(a) 10 mlynedd o ddyddiad cwblhau gwaith yr arolygydd cymeradwy mewn perthynas â'r prosiect adeiladu perthnasol, boed y dyddiad hwnnw'n ymwneud â rhoi tystysgrif derfynol, nad yw'n cael ei gwrthod wedyn gan awdurdod lleol, sy'n ymwneud â'r prosiect, neu ryw ddigwyddiad arall sy'n nodi terfynu'n ymarferol ymwneud yr AI â'r prosiect mewn perthynas â Hysbysiad Cychwynnol dyddiedig cyn dyddiad yr yswiriant newydd, neu

(b) 6 blynedd o ddyddiad cwblhau gwaith yr arolygydd cymeradwy mewn perthynas â'r prosiect adeiladu perthnasol, boed y dyddiad hwnnw'n ymwneud â rhoi tystysgrif derfynol, nad yw wedi ei gwrthod wedyn gan awdurdod lleol, sy'n ymwneud â'r prosiect, neu ryw ddigwyddiad arall sy'n nodi terfynu'n ymarferol gyfraniad yr AC yn y prosiect mewn perthynas â Hysbysiad Cychwynnol dyddiedig ar neu ar ôl yr yswiriant newydd.

Mae'r terfynau isaf fesul hawliad a nodir yn a.(i) a (ii) uchod yn gymwys mewn perthynas â'r yswiriant hwn, fel y mae'r terfyn isaf o £15 miliwn.

d. Tâl-dros-ben

Trosiant mewn £ yn y flwyddyn flaenorol

100,000 neu lai (Bwlch Tâl-dros-ben: £10,000)

100,001 – 200,000 (Bwlch Tâl-dros-ben: £12,500)

200,001 ac uwch (Bwlch Tâl-dros-ben: 2.5% o swm wedi'i yswirio, yn unol â meini prawf a.(ii) - y swm llawn sydd i'w dalu gan yr yswiriwr, gyda tâ-dros-ben yn cael ei adennill o'r AC.)

e. Dirymu'r Yswiriant

Yn unol ag arfer masnachol, caniateir darpariaethau rhesymol ar gyfer dirymu'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/meini-prawf-ar-gyfer-yswiriant-arolygydd-cymeradwy-wgc-0062021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

yswiriant er enghraifft: am fethu â datgelu gwybodaeth berthnasol, methu â chadw at delerau ac amodau'r polisi, neu fethu â thalu'r premiwm.

f. Trosglwyddo i Feini Prawf Yswiriant 2021

Cyn gweithredu Meini Prawf Yswiriant 2021 o fewn cynlluniau yswiriant, rhaid i gynlluniau newydd neu ddiwygiedig gael eu cymeradwyo fel rhai digonol gan Weinidogion Cymru. Gellir cyflwyno cynlluniau i Lywodraeth Cymru a rhaid iddynt gynnwys telerau ac amodau llawn. Darperir canllawiau ar gyfer Cynlluniau Yswiriant yn: <https://gov.wales/building-regulations>

Rhaid i'r telerau ac amodau yswiriant gynnwys cymalau sy'n diogelu defnyddwyr presennol ar gyfer gwaith a gafodd Hysbysiad Cychwynnol cyn trosglwyddo i'r cynllun newydd, gan gynnwys ar gyfer dŵr ffo a chyfyngiadau i yswiriant.

Atodiad B

Arolygwyr Cymeradwy – Canllawiau ar gyfer Cymeradwyo Cynlluniau Yswiriant

Diben

1. Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar gymeradwyo a phrosesau gweithredol ar gyfer cymeradwyo cynlluniau yswiriant ar gyfer Arolygwyr Cymeradwy yn unol ag adran 47(6) o Ddeddf Adeiladu 1984.
2. Mae'r canllawiau a amlinellir yma yn berthnasol i yswiriant Arolygwyr Cymeradwy sy'n cyflawni swyddogaethau rheoli adeiladu yng Nghymru.
3. O bryd i'w gilydd bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi dogfen 'Cynlluniau Yswiriant ar gyfer Arolygwyr Cymeradwy yn unol ag Adran 47(6) o Ddeddf Adeiladu 1984 sy'n nodi meini prawf ("y Meini Prawf") y bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw iddynt wrth ystyried digonolrwydd cynlluniau yswiriant.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/meini-prawf-ar-gyfer-yswiriant-arolygydd-cymeradwy-wgc-0062021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

4. Mae'r Canllawiau hyn a'r Meini Prawf yn ganllawiau ac nid ydynt yn llyffetheirio disgresiwn Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chymeradwyo cynlluniau yswiriant.

Cynlluniau Yswiriant

5. Mae cynllun yn cynnwys y telerau ac amodau yswiriant llawn a gynigir, manylion am sut y caiff telerau sy'n benodol i gwmni eu defnyddio, a threfniadau a/neu enwau yswirwyr a thanysgrifwyr, hunanyswiriwr neu gyllid person arall neu warantu yswiriant a ysgrifennwyd o dan y cynllun yn ariannol. Gall cynllun ddarparu yswiriant i un neu nifer o Arolygwyr Cymeradwy.

Cymeradwyaeth

6. Rhaid i gynlluniau yswiriant sy'n ceisio cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru gyflwyno eu manylion llawn eu cynllun i'r Tîm Polisi Rheoliadau Adeiladu.

7. Anogir cysylltu'n gynnar â'r Tîm Polisi Rheoliadau Adeiladu wrth ddatblygu'r cynllun.

8. Rhaid i unrhyw newidiadau i gynllun yswiriant cymeradwy, gan gynnwys newidiadau arfaethedig i unrhyw delerau neu amodau yswiriant a gynigir o dan y cynllun, a newidiadau i'r person sy'n darparu, tanysgrifennu, ariannu neu warantu'r yswiriant, gael eu hanfon i'w cymeradwyo gan Weinidogion Cymru cyn i newidiadau gael eu cymhwyso.

9. Yn ogystal â chael cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru, rhaid i gynlluniau hysbysu'r corff a ddynodwyd i gadw a chyhoeddi cofnodion yswiriant newydd, newidiadau i yswiriant a phenderfyniadau ar yswiriant mewn modd amserol.

10. Os yw darparwr cynllun yn dymuno tynnu ei gynllun yn ôl, dylai ysgrifennu at y Tîm Polisi Rheoliadau Adeiladu gyda'r manylion cyswllt isod.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/meini-prawf-ar-gyfer-yswiriant-arolygydd-cymeradwy-wgc-0062021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Y Broses Gymeradwyo

11. O dan Ddeddf Adeiladu 1984, caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo unrhyw gynllun y mae'n ymddangos iddynt ei fod yn sicrhau y caiff yswiriant digonol ei ddarparu, a chaiff y meini prawf eu hystyried fel rhan o'r asesiad digonolrwydd.

12. Bydd disgwyl i'r personau hynny sy'n cyflwyno cynlluniau i'w cymeradwyo ddarparu manylion cynllun cynhwysfawr, gan gynnwys y telerau ac amodau llawn, sut y bydd y cynllun yn gweithredu a manylion yswirwyr ac adyswiriant.

13. Gall y Tîm Polisi Rheoliadau Adeiladu ofyn am wybodaeth y mae'n barnu sy'n angenrheidiol wrth asesu digonolrwydd y cynllun. Gallant hefyd ofyn am gyngor arbenigol sy'n benodol ar gyfer asesu'r gofynion ar gyfer unrhyw gynllun.

Sut i gyflwyno cynlluniau i'w cymeradwyo

14. Rhaid cyflwyno ceisiadau am gymeradwyaeth, ail-gymeradwyaeth a hysbysiadau canslo i'r Tîm Polisi Rheoliadau Adeiladu yn y cyfeiriadau canlynol:

Polisi Rheoliadau Adeiladu,
Llywodraeth Cymru,
Rhyd-y-car,
Merthyr Tudful,
CF48 1UZ

neu

E-bost: enquiries.brconstruction@llyw.cymru

Ymholiadau ffôn: 03000 628144

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/meini-prawf-ar-gyfer-yswiriant-arolygydd-cymeradwy-wgc-0062021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ffurflen flynyddol gan weithredwr y cynllun

15. Dylai cynlluniau yswiriant cymeradwy gyflwyno ffurflen flynyddol i'r Tîm Polisi Rheoliadau Adeiladu, ac mae ffurflen wedi'i hatodi yn Atodiad 1 i'r ddogfen hon. Bydd y cyfnod adrodd ar gyfer ffurflenni blynyddol yn rhedeg o fis Ionawr i fis Rhagfyr. Dylid cyflwyno'r ffurflenni i'r Tîm Polisi Rheoliadau Adeiladu erbyn diwedd pob mis Ionawr, gan adrodd ar y flwyddyn galendr flaenorol. Dylid mynd i'r afael â'r ffurflenni blynyddol ar: enquiries.brconstruction@llyw.cymru

Llinellau amser

16. Bydd yr amser a gymerir i gymeradwyo cais am gynllun cymeradwy yn amrywio yn dibynnu ar gymhlethdod y cynllun arfaethedig, y dystiolaeth sy'n cefnogi digonolrwydd, a nifer y ceisiadau eraill a dderbyniwyd. Gall penderfyniad ar gais llawn sy'n cydymffurfio'n agos â'r Meini Prawf fel arfer gymryd 6-8 wythnos o adeg cyflwyno'r cynnig cychwynol.

Atodiad 1

Polisi Rheoliadau Adeiladu Llywodraeth Cymru Adroddiad blynyddol

Cynlluniau Yswiriant ar gyfer Arolygwyr Cymeradwy

Blwyddyn adrodd: Ionawr – Rhagfyr 20--

Nifer yr Arolygwyr Cymeradwy a gwmpesir gan y cynllun, gan gynnwys y rhai ag amrywiad o fath o yswiriant

Cadarnhau telerau'r cynllun

(Cyflwynwch delerau llawn y cynllun cymeradwy i'r Tîm Polisi Rheoliadau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/meini-prawf-ar-gyfer-yswiriant-arolygydd-cymeradwy-wgc-0062021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Adeiladu)

Cadarnhad na fu unrhyw newidiadau i'r cynllun yswiriant cymeradwy ers yr adroddiad diwethaf

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/meini-prawf-ar-gyfer-yswiriant-arolygydd-cymeradwy-wgc-0062021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Meini prawf ar gyfer yswiriant Arolygydd Cymeradwy \(WGC 006/2021\)](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/meini-prawf-ar-gyfer-yswiriant-arolygydd-cymeradwy-wgc-0062021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/meini-prawf-ar-gyfer-yswariant-arolygydd-cymeradwy-wgc-0062021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).